Adroddiad Blynyddol
Safonau'r Gymraeg

Cymraeg

Ebrill 2021 -
Mawrth 2022

CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2021 - Mawrth 2022

Crynodeb Gweithredol

1.	Cyflwyniad	4
2.	Cefndir ar sefyllfa bresennol	4
3.	Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2021/22	5
4.	Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	8
5.	Sgiliau a hyfforddiant y Gymraeg	13
6.	Cwynion	18
7.	Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol	20

Atodiadau

Atodiad 1 Offeryn Hunan Asesu Sgiliau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg
Ebrill 2021 - Mawrth 2022
Crynodeb Gweithredol

Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar 30 Mawrth 2016 ac roedd yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r 146 Safon erbyn y dyddiad hwn. Daeth safonau pellach i rym yn ddiweddarach gan olygu cyfanswm o 171 i gyd. Mae nifer o'r safonau sy'n berthnasol i'r Cyngor yn adlewyrchu'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol a'n harfer presennol a'n hymrwymiad i'r Gymraeg.

Dyma'r chweched Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ac mae'n berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Mae'n dangos y camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau ac yn cynnwys data sy'n ofynnol i ni eu cyhoeddi. Mae hon wedi parhau i fod yn flwyddyn heriol lle rydym wedi cyfrannu at yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig wrth barhau â'n hymrwymiadau gwaith.

Rydym yn falch o adrodd ein bod wedi parhau i gefnogi Menter Iaith Fflint a Wrecsam i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a hyrwyddo a rhannu ein treftadaeth Gymreig. Eleni fe wnaeth mwy o fanwerthwyr nac yn y blynyddoedd blaenorol gymryd rhan yn y gystadleuaeth arddangosfa ffenestr siop ar thema Dydd Gŵyl Ddewi, gan godi gweledegd diwylliant Cymru ar draws ein trefi.

Mae penodiad Swyddog Cymunedol y Gymraeg llawn amser o fewn y Gwasanaethau Darpariaeth Ieuenctid Integredig wedi arwain at gynnydd mewn defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc. Er enghraifft, roedd cynlluniau Chwarae'r Haf yn defnyddio'r Gymraeg gyda phlant o ysgolion cyfrwng Saesneg. Bydd y bagiau cit ar gyfer cynlluniau chwarae yn y dyfodol bellach yn cynnwys adnoddau i gefnogi Arweinwyr Chwarae i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr holl safleoedd chwarae, gan roi cyfle i blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith tu allan i'r ysgol. Bydd hyfforddiant pellach ar gael er mwyn i'r tîm ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio ychydig o Gymraeg ymhob safle.

Rydym wedi parhau i wneud cynnydd wrth gydymffurfio â'r safonau, fodd bynnag, mae rhai heriau wedi bod gyda recriwtio i rai swyddi yn dilyn y pandemig, yn arbennig o ran recriwtio siaradwyr Cymraeg i rai swyddi gyda'r cyhoedd. Mae hyn yn effeithio ar gapasiti'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd y gallwn ddatblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Cynghorydd Ian Roberts
Arweinydd y Cyngor

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiadau Cydymffurfio ar y Cyngor yn 2016, yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae'r safonau yn nodi'r hyn a ddisgwylir i'r Cyngor ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i ddiwallu'r Safonau.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin fel y nodir yn safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r safonau sydd angen i ni gydymffurfio â hwy ar gael yma. Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei dderbyn yn flynyddol gan Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021. Mae manylion o sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan a gellir dod o hyd iddynt yma.

1.3 Hwn yw'r chweched adroddiad blynyddol ac mae'n cynnwys y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022 gan nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau a'r meysydd sydd angen i ni wella.

2.0 Cefndir

2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ar y cyd â'r Saesneg a sefydlwyd fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â'r safonau Cymraeg newydd. Mae cyflwyniad Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor o fewn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol.

2.2 Nod y Safonau yw:

- gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg.
- cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg.
- ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg.
- sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrff yn yr un sectorau.

2.3 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i ymchwilio a chymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfiaeth.

2.4 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Cynghorydd Polisi Strategol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Mae Rhwydwaith y Gymraeg yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Addysg ac

Ieuenctid. Yr Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol ac Asedau oedd Hyrwyddwr y Gymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Hyrwyddwr newydd y Gymraeg fydd Arweinydd y Cyngor.

2.5 Gellir gwneud cwynion am fethu â chyrraedd Safonau'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein Gweithdrefn Gwyno. Gall weithwyr godi pryderon drwy Weithdrefn Gwyno'r Cyngor.

3.0 Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2021/22

3.1 Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau canlynol:

- Safonau Cyflenwi Gwasanaethau
- Safonau Llunio Polisi
- Safonau Gweithredu

Mae'r camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Safonau ar gael ar wefan y Cyngor ac o fewn yr adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau ychwanegol rydym wedi'u cymryd yn ystod 2021/22.

3.2 **Cydymffurfio â Safonau Darparu Gwasanaethau**

3.2. 1 Atgoffir gweithwyr yn rheolaidd am Safonau'r Gymraeg a'u cyfrifoldebau. Mae gweithwyr newydd yn cael eu hysbysu am y Safonau yn ystod y cyfarfod sefydlu a gofynnir iddynt gwblhau modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg. Er mwyn asesu pa mor dda mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n gyson â'r safonau, yn ystod 2021/22 cwblhawyd hunanasesiad yn erbyn y safonau ar gyfer cyfatebiaeth, arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a gwefannau gan yr holl Bortffolios. Mae'r asesiad hwn yn helpu i ganfod y gwasanaethau hynny lle gellir gwella ar gydymffurfiaeth.

3.2.2 Yn 2020/21 fe wnaethom gomisiynu ymarfer cwsmer cudd er mwyn adolygu'r chwe phrif faes gwasanaeth ar ein gwefan, i wirio fod y tudalennau Cymraeg yn gyfwerth â'r tudalennau Saesneg. Dewiswyd y rhain gan eu bod yn cynrychioli'r meysydd mwyaf poblogaidd ar y wefan:

- Biniau, Ailgylchu a Gwastraff;
- Cynllunio;
- Ysgolion;
- Ffyrdd, Strydoedd a Theithio;
- Y Cyngor a Democratiaeth; a
- Treth y Cyngor a Budd-daliadau

3.2.3 Pwrpas yr adolygiad oedd canfod meysydd lle nad oedd y Gymraeg yn gyfystyr â'r Saesneg, gan gynnwys cynnwys, dogfennau, dolenni, e-ffurflenni a negeseuon awtomatig. Roedd yr adolygiad hefyd yn canfod unrhyw anghysondebau eraill rhwng y tudalennau Cymraeg a Saesneg. Mae'r gwasanaethau bellach wedi cywiro'r tudalennau perthnasol er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn gyfwerth â'r Saesneg. Yn ystod 2021/22 roedd 27,473 o

ymweliadau i'r tudalennau Cymraeg ar wefan y Cyngor o'i gymharu â 3,840,077 o ymweliadau i'r tudalennau Saesneg.

3.2.4 Mae dewis iaith cwsmeriaid yn cael ei gipio ar y cyswllt cyntaf gyda'r gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu 'Cynnig Gweithredol' sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Allan o 3,242 o asesiadau Gwasanaethau Cymdeithasol a gwblhawyd yn ystod 2021/22, roedd 1,043 â thystiolaeth o'r cynnig gweithredol (h.y. bocs gyda thic ar y ffurflen asesu). O'r 1,043 lle gwnaed y cynnig gweithredol, cafodd dau ei dderbyn ac mewn un achos cafodd yr asesiad ei gwblhau a'i ddogfennu yn Gymraeg.

3.2.5 Mae'r Cyngor yn defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau ar-lein. Gan nad yw cyfieithu ar y pryd yn ymarferol drwy'r platfform hwn ar hyn o bryd, mae trwyddedau hefyd wedi cael eu prynu ar gyfer Zoom. Mae hyn yn golygu fod gweithwyr sy'n hwyluso cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar-lein yn gallu cael mynediad at Zoom pan fydd angen y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd gan sicrhau fod y Safonau Cymraeg perthnasol yn cael eu bodloni.

3.2.6 Yn dilyn adolygiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg o gydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r Safonau, mae trefniadau i sicrhau fod cyfieithiad Cymraeg yn cael ei gynnig ymhob cyfarfod pwyllgor sydd yn agored i'r cyhoedd, yn cael eu cryfhau. Mae negeseuon atgoffa hefyd wedi cael eu hanfon i weithwyr o ran cydymffurfio â'r safonau mewn perthynas â gwefannau, dogfennau, ffurflenni, galwadau ffôn a pheiriannau hunan-wasanaeth. Mae canllawiau ar fodloni gofynion y Safonau ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.

3.2.7 Mae cyfarfod Rhwydwaith yr Iaith Gymraeg y Gwasanaeth Cymdeithasol yn cael ei sefydlu er mwyn cynnwys hyfforddiant staff, cyfathrebu gyda'r cyhoedd, cymorth a chefnogaeth, cipio data, monitro perfformiad a gweithredu "Mwy Na Geiriau". Mwy na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

3.2.8 Rydym wedi profi heriau parhaus wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg ac mae hyn wedi gwaethygu gyda'r anawsterau recriwtio presennol ar gyfer holl swyddi, gan gynnwys y rhai lle nad yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol. Cafodd un swydd ei hysbysebu chwe gwaith cyn i ni allu recriwtio siaradwr Cymraeg yn llwyddiannus i swydd allweddol gyda'r cyhoedd. Roedd y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r swydd wag yn cynnwys hysbysebu drwy gyfryngau Cymraeg 'niche', gofyn i holl ysgolion Sir y Fflint a Rhwydwaith yr Iaith y Cyngor i rannu trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Hefyd fe ofynnom i asiantaethau eraill rannu gyda'u rhwydweithiau.

3.3 Cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi

3.3.1 Fe weithiom gyda'n cydweithwyr o gyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu templed Asesiad o Effaith rhanbarthol sy'n cynnwys y Gymraeg. Cafodd y templed ei anfon i Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau, sydd wedi cael eu hymgorffori o fewn y templed.

3.3.2 Cwblhawyd adolygiad o adroddiadau'r pwyllgor yn ystod 2021/22 i ganfod os oedd awduron adroddiadau wedi bod yn cwblhau ac yn cynnwys asesiadau o effaith o fewn adroddiadau perthnasol.

3.3.3 Rydym yn darparu grantiau amrywiol a reolir gan sefydliadau eraill ar ein rhan. Mae ffurflenni cais a meini prawf yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad i ddweud na fydd oedi cyn ymateb i geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg. Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu polisi ar y Gymraeg a grantiau o fewn y 12 mis nesaf er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â'r Safonau perthnasol.

3.3.4 Nodir isod nifer y ceisiadau am grant a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2020/21:

Grant	Cyfanswm y Ceisiadau	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg
Cist Gymunedol	51	0
Cronfa Waddol Gymunedol	9	1
Cronfa'r Degwm	7	1

3.3.5 Mae manylion am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi ar gael ar ein gwefan. Mae cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer gweithwyr wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

3.4.1 Mae manylion llawn sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol ar gael ar ein gwefan.

3.4.2 Mae cyrsiau Blas ar y Gymraeg bellach yn cael eu cynnig i weithwyr. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd ac wedi arwain at nifer o weithwyr yn dewis mynychu hyfforddiant Cymraeg pellach.

3.4.3 Bydd y Polisi Cymraeg yn y Gweithle, a fabwysiadwyd yn 2017, yn cael ei ddiweddaru yn ystod 2022/23. Mae'r polisi hwn yn gymwys i ddefnydd y Gymraeg yn fewnol gyda'r nod o gynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac annog ein gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a thu allan i'r gwaith.

3.4.4 Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w contract cyflogi gael ei ddarparu. Gall weithwyr ddewis derbyn cyfatebiaeth busnes yn Gymraeg. Mae 49 o weithwyr yn derbyn eu slipiau cyflog yn Gymraeg.

3.4.5 Mae dogfennaeth arfarnu wedi ei gyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweliadau/cyfarfodydd disgyblu yn y Gymraeg.

3.4.6 Caiff y polisïau canlynol eu cyhoeddi yn y Gymraeg:

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi'r Gymraeg yn y Gweithle

3.5 Trefniadau monitro

3.5.1 Mae Rhwydwaith yr Iaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob portffolio a sefydliadau eraill oedd gynt yn rhan o'r Cyngor, gan gynnwys Aura (llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden) a Theatr Clwyd. Mae'r rhwydwaith yn cwrdd bob chwarter. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar y rhaglen mae hyfforddiant y Gymraeg, proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr, hyrwyddo'r Gymraeg a chwynion. Mae galwadau i linellau ffôn Canolfan Gyswllt Cymru a Lloegr hefyd yn cael eu hadolygu yn y cyfarfodydd hyn i nodi unrhyw wahaniaeth mewn amseroedd aros.

3.5.2 Mae adroddiadau ar gydymffurfiaeth â'r Safonau yn cael eu cyflwyno'n rheolaidd i'n Tîm Prif Swyddogion. Mae'r adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth cyn cael ei fabwysiadu.

4.0 Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

4.1 Anogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Cefnogir gweithwyr i fynychu gwersi o fewn amser gwaith. Mae sesiynau "Paned a Sgwrs" hefyd yn cael eu cynnal unwaith yr wythnos er mwyn cefnogi dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel, a hwylusir y sesiynau gan siaradwyr Cymraeg. Yn ystod 2021/22, cynhaliwyd y sesiynau anffurfiol awr o hyd hyn dros y we.

4.2 Mae Cysgliad (Geiriadur, gwirio sillafu a gramadeg) ar gael ar gyfer gweithwyr. Caiff hyn ei hyrwyddo yn y cyfarfod sefydlu a chaiff gweithwyr eu hatgoffa yn rheolaidd, drwy eitemau newyddion y gweithlu, y gallent wneud cais am Cysgliad.

4.3 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnrwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i'r gweithlu.

4.4 Er fod Theatr Clwyd yn Ymddiriedolaeth ac nad yw bellach yn disgyn o dan nawdd y Cyngor, rydym yn darparu cyllid i'r theatr. Fel rhan o gytundeb gyda'r

Cyngor maent yn parhau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae rhai esiamplau o'u gwaith yn ystod 2021/22 yn cynnwys:

- cynhyrchu trydedd sioe Nadolig Cymraeg Sioe Nadolig (Y Triawd) - roedd hwn yn gyd-gynhyrchiad gyda Phontio ar gyfer teuluoedd, a gafodd ei berfformio ym Mhontio a Theatr Clwyd. Roedd y tair sioe Gymraeg ar gael yn ystod Nadolig 2021 fel y gallai teuluoedd weld unrhyw un o'r sioeau Nadolig yn y Gymraeg. Mae Pontio yn ganolfan gelfyddydau a diwylliant ac yn rhan o Brifysgol Bangor.

- darparu clybiau theatr a dawns ar ôl ysgol mewn dwy ysgol cyfrwng Cymraeg - Ysgol Maes Garmon ac Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug.

- darparu prosiect ymyrraeth STEM, Bright Sparks, a aeth ar daith i ysgolion cynradd ar draws Gogledd Cymru. Darparwyd cyfanswm o 16 sesiwn yn y Gymraeg. Ariannwyd y prosiect hwn gan Ymestyn yn Ehangach, Partneriaeth Gogledd a Chanolbarth Cymru (Prifysgol Bangor). Mae'r fenter STEM yn annog addysg mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg.

- parhau i gefnogi artistiaid a chwmnïau Cymraeg i ddatblygu eu gwaith trwy roi gofod a chefnogaeth i gynhyrchu gwaith newydd.

4.5 Mae Swyddog Cymunedol y Gymraeg wedi cael ei benodi i'r Gwasanaeth Ieuenctid; swydd sydd wedi'i dynodi i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan y tîm a'r plant a phobl ifanc. Mae'r deiliad swydd yn rhan o greu a gweithredu cynllun 10 mlynedd i ddatblygu gwasanaeth Darpariaethau Ieuenctid Integredig dwyieithog. Mae rhai o'r mentrau sydd eisoes wedi'u rhoi mewn lle fel rhan o'r rôl yn cynnwys:

- **Prosiect Cân a Lles -** Cynhaliwyd ac arweiniwyd y prosiect hwn gan bobl ifanc Ysgol Gymraeg Maes Garmon gyda'r nod o greu cân gadarnhaol ar ôl COVID-19. Fe wnaeth y bobl ifanc ysgrifennu a recordio cân Gymraeg i'w rhyddhau yn Haf 2022 er mwyn mynegi eu profiadau o'r ddwy flynedd ddiwethaf a'u breuddwydion a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

- **Prosiect Celf a Lles -** mae'r prosiect hwn ar gyfer pobl ifanc yn ein clybiau ieuenctid i greu darnau o gelf i'w cyflwyno i gystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd. Mae wythnos o sesiynau celf wedi cael eu cynnal yn un o'n cymunedau sydd â lefel uchel o amddifadedd, ar gyfer pobl ifanc heb fynediad at ein gwasanaethau. Mae'r tîm Datblygu Chwarae yn mynd â'r prosiect Celf a Lles i'r gymuned hon a'u cefnogi i gymryd rhan mewn cystadlaethau'r Urdd.

- **Cymraeg Bob Clwb -** nod y fenter hon yw cynyddu gweledededd y Gymraeg mewn clybiau ieuenctid a datblygu cyfleoedd i bobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg. Enghraifft o hyn oedd y gystadleuaeth poster Nadolig Llawen a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Gofynnwyd i'r clybiau ieuenctid greu poster yn dymuno Nadolig Llawen i'r gymuned leol. Mae'r ymateb gan bobl ifanc i'r mentrau wedi bod yn gadarnhaol, maent wedi cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn cyfrannu tuag

at syniadau o sut i hyrwyddo'r Gymraeg fel nad yw'n gysylltiedig â'r ysgol a dysgu ffurfiol yn unig. Erbyn hyn mae defnydd cynyddol o arwyddion Cymraeg yn unig ymhob clwb ieuenctid.

- **Cymraeg Bob Cynllun -** nod y fenter hon yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn naturiol wrth chwarae ac ar draws ein cynlluniau chwarae, heb ymyrraeth oedolyn. Mae nifer o adnoddau wedi cael eu darparu ar gyfer Arweinwyr Chwarae er mwyn datblygu hyder i ddefnyddio ychydig o Gymraeg a'i ddefnyddio gyda phlant ymhob safle. Roedd dros 23% o'r Arweinwyr Chwarae yn ystod y cyfnod hwn yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd enghreifftiau o'r adnoddau a ddatblygwyd gan y swyddog Cymunedol yn cynnwys gwneud dis, gyda phob wyneb yn cynnwys llun h.y. dawnsio, rhedeg, neidio ac ati, a'r gair cyfatebol yn Gymraeg. Mae hyn yn annog y plant i edrych ar y llun a darganfod y gair Cymraeg yn hytrach na rhoi'r cyfieithiad Saesneg. Mae llyfryn iaith hefyd wedi cael ei greu ar gyfer gweithwyr i'w cefnogi i ddefnyddio brawddegau a geiriau Cymraeg syml. Mae'r adnodd hwn wedi ei seilio ar y llyfryn a ddefnyddiwyd gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg y Cyngor fel bod y patrymau iaith sy'n cael eu dysgu mewn ysgolion hefyd yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau cymunedol.

- **Cyngor Ieuenctid Sir y Fflint**- mae'r cyngor hwn yn caniatáu i bobl ifanc leisio eu barn ar benderfyniadau a all effeithio arnyn nhw a'u bywydau. Bydd y Cyngor Ieuenctid rŵan yn cymryd rôl fwy gweithredol yn natblygiad gwasanaethau ieuenctid dwyieithog dros y 10 mlynedd nesaf.

- **Dydd Mercher Cymraeg** - mae gair Cymraeg yr wythnos gyda chysylltiad â thema wythnosol y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gyhoeddi ar eu safleoedd cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac Instagram). Y nod o ddefnyddio'r platfformau hyn yw bwydo ychydig o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog ac annog pobl ifanc i "roi cynnig arni" a defnyddio'r gair penodol hwnnw yn ystod yr wythnos.

Enghraifft o boster a ddefnyddiwyd gan y cynlluniau Chwarae

4.6 Siarter Iaith a Chymraeg Campus

4.6.1 Nod y fframweithiau Siarter Iaith a Chymraeg Campus a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yw hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion, annog disgyblion i wella eu sgiliau Cymraeg a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. Mae fframwaith Siarter Iaith yn canolbwyntio ar ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae fframwaith Cymraeg Campus wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

4.6.2 Mae enghreifftiau i fentrau Siarter Iaith sydd wedi datblygu yn Sir y Fflint yn cynnwys:

- creu cyfres o bodlediadau 'Ffrindiau Fflint', yn seiliedig ar 'Ein Hardal Leol' gan chwe ysgol gynradd cyfwng Cymraeg.

- sefydlu 'Dragon's Den' i dderbyn ceisiadau fideo gan ysgolion gyda'r nod o hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth.

4.6.3 Roedd mentrau Cymraeg Campus yn cynnwys:

- "Dragon's Den" - cymerodd 26 o ysgolion ran yn y fenter Dragon's Den. Y nod ar gyfer y 'Criw Cymraeg' ymhob ysgol oedd canfod ffyrdd y gallent wella Cymraeg Campus yn eu hysgol. Anfonodd pob ysgol fideo i mewn gyda'u cais. Mae'r Criw Cymraeg yn grŵp o ddysgwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n cwrdd o dan oruchwyliaeth athro/athrawes i yrru blaenoriaethau'r ysgol ymlaen mewn perthynas â'u targedau Cymraeg Campus.

- Darparwyd cyfres o 12 sesiwn gyda'r hwyr i 90 o staff ysgol i ailgydio yn y Cymraeg Campus yn dilyn pandemig.

- Derbyniodd dwy ysgol wobr Cymraeg Campus - derbyniodd un ysgol y wobr Efydd (Ysgol Bryn Deva, Cei Connah) a derbyniodd un ysgol (Ysgol y Llan, Chwitfford) y wobr arian. Ysgol y Llan oedd yr ysgol gyntaf yn rhanbarth Gogledd Cymru i gyflawni'r wobr arian.

4.7 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Fel rhan o weithrediad y Cynllun, mae Ysgol Glanrafon yn yr Wyddgrug yn cael ei ail-fodelu a'i ehangu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu darpariaeth cyn ysgol pwrpasol ar y safle. Bydd estyniad ar y safle yn galluogi i gapasiti'r ysgol gynyddu. Rhagwelir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau yn ystod Mai 2022.

Mae buddsoddiad o tua £1.1 miliwn yn cael ei wneud i Ysgol Croes Atti Glannau Dyfrdwy, i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Shotton. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau yn 2022.

Bydd ysgol cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig yn dod yn lle Ysgol Croes Atti presennol, yn y Fflint. Hon fydd yr ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyntaf i

gael ei hadeiladu gan y Cyngor, ers iddo gael ei sefydlu ym 1996. Mae LIC yn gwneud cyllid ar gael i hyrwyddo twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi mynegi diddordeb mewn gwneud cais am gyllid, gan flaenoriaethu darpariaeth newydd yn ardal Bwcle/Mynydd Isa fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

4.8 Digwyddiadau

Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **15 Hydref 2021 Diwrnod Su'mae -** fe wnaethom annog gweithwyr i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, beth bynnag eu gallu ieithyddol, gyda chydweithwyr, yn ystod cyfarfodydd ac mewn negeseuon e-bost. Gofynnwyd i holl reolwyr ddechrau a gorffen eu cyfarfodydd yn ddwyieithog. Fe wnaethom hefyd roi negeseuon Twitter ar safle Twitter y Cyngor.

- **7 Rhagfyr 2021 Diwrnod Hawliau'r Gymraeg** - fe wnaethom roi fideos ar y cyfryngau cymdeithasol yn annog ein cwsmeriaid i gysylltu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg, ar y cyd â negeseuon eraill i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Mae enghraifft o un o'r fideos yn hyrwyddo'r Swyddfa Gofrestru isod.

- **Chwefror 2022 Dydd Miwsig Cymru** - gwnaethom bostio negeseuon ar ein gwefan Twitter i hyrwyddo hyn a thrwy ein Tîm Busnes a hyrwyddodd ymysg busnesau lleol i'w hannog i gymryd rhan.

- **1 Mawrth 2022 Dydd Gŵyl Dewi** - cefnogom Fenter Iaith i ddathlu'r diwrnod drwy ddarparu cymorth ariannol i ariannu fideos, cystadleuaeth addurno ffenestr a gweithgareddau ar gyfer preswylwyr yn ein cartrefi gofal. Cafodd y rhain eu postio ar ein safle Twitter. Roedd cystadlaethau hefyd ar gyfer disgyblion ysgol.

Preswylwyr yn un o'n cynlluniau Gofal Ychwanegol yn cymryd rhan yn nathliadau Dydd Gŵyl Dewi



5.0 Sgiliau a Hyfforddiant Cymraeg

5.1 Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hunanasesu yn erbyn Fframwaith Hyfedredd y Gymraeg. (Atodiad 1) Mae proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr yn ôl Portffolio wedi'i nodi yn Nhabl 1. Mae Tabl 2 yn dangos crynodeb o'r sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu. Mae'r tablau yn dangos fod y nifer a chanran y gweithwyr sy'n datgan nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg wedi lleihau ers Mawrth 2021. Adroddodd 964 (34.27%) o weithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ym Mawrth 2022, o'i gymharu â 992 (35.35%) o weithwyr a adroddodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg ym Mawrth 2021.

5.2 Mae newidiadau bychain wedi digwydd ar lefelau eraill. Mae nifer y gweithwyr sydd yn adrodd bod eu sgiliau Cymraeg ar lefelau 4 a 5 wedi lleihau. Adroddodd 108 (3.86%) o weithwyr eu bod ar lefel 4 a 100 (3.57%) o weithwyr ar lefel 5 ym Mawrth 2021 o'i gymharu â 100 (3.55%) ac 88 (3.13%) o weithwyr ym Mawrth 2022.

5.3 Mae cynnydd wedi bod yn nifer y gweithwyr sydd heb adrodd am eu sgiliau Cymraeg, nid chwblhaodd 189 o weithwyr yr asesiad sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2022 o'i gymharu â 43 o weithwyr na gwblhaodd yr asesiad ym Mawrth 2021.

Tabl 1: Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2022

Portffolio	Nifer y Staff	Lefel 0 Nifer	%	Lefel 1	%	Lefel 2	%	Lefel 3	%	Lefel 4	%	Lefel 5	%	Heb gofnodi	%
Prif Weithredwyr	28	1	3.57%	12	42.86%	5	17.86%	4	14.29%	2	7.14%	3	10.71%	1	3.57%
Addysg ac Ieuenctid	254	51	20.08%	98	38.58%	34	13.39%	16	6.30%	17	6.69%	13	5.12%	25	9.84%
Llywodraethu	215	39	18.14%	100	46.51%	36	16.74%	7	3.26%	9	4.19%	10	4.65%	14	6.51%
Tai ac Asedau	335	127	37.91%	119	35.52%	33	9.85%	14	4.18%	11	3.28%	5	1.49%	26	7.76%
Pobl ac Adnoddau	189	45	23.81%	76	40.21%	34	17.99%	9	4.76%	11	5.82%	5	2.65%	8	4.76%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	192	41	21.35%	78	40.63%	29	15.10%	10	5.21%	13	6.77%	8	4.17%	13	6.77%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,078	397	36.83%	367	34.04%	138	12.80%	32	2.97%	29	2.96%	35	3.25%	80	7.42%
Gwasanaethau Stryd a Chludiant	522	2623	50.38%	165	31.61%	46	8.81%	10	1.92%	8	1.53%	9	1.72%	21	4.02%
Cyfanswm	**2,813**	**964**	**34.27%**	**1,015**	**36.08%**	**355**	**12.62%**	**102**	**3.63%**	**100**	**3.55%**	**88**	**3.13%**	**189**	**6.72%**

Tabl 2: Crynodeb proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2022

Portffolio	Cyfanswm y gweithwyr	Nifer y gweithwyr lle nad oes cofnod o sgiliau Cymraeg	Cyfanswm y gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg (Lefel 1 Lefel 5)	% y gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg	Nifer y gweithwyr heb unrhyw sgiliau Cymraeg	% y gweithwyr heb sgiliau Cymraeg
Prif Weithredwyr	28	1	26	92.86%	1	3.57%
Addysg ac Ieuenctid	254	25	178	70.08%	51	20.08%
Llywodraethu	215	14	162	75.35%	39	18.14%
Tai ac Asedau	335	26	182	54.33%	127	37.91%
Pobl ac Adnoddau	189	8	136	71.96%	45	23.81%
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	192	13	138	71.88%	41	21.35%
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,078	80	601	55.75%	397	36.83%
Gwasanaethau Stryd a Chludiant	522	21	238	45.59%	263	50.38%
Cyfanswm	**2,813**	**189**	**1,661**	**59.05%**	**964**	**34.27%**

5.4 Mae gweithgareddau i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn cynnwys mentrau i ddatblygu'r sgiliau o fewn ein gweithlu presennol ac i ddenu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.

Ar gyfer gweithwyr presennol rydym wedi bod yn:

- annog gweithwyr i fynychu hyfforddiant y Gymraeg
- cynnig sesiynau blasu'r Gymraeg drwy Goleg Cambria, sesiynau dwy awr am gyfnod o chwe wythnos. Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer gweithwyr nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg.
- cynnig sesiynau wythnosol Paned a Sgwrs i roi cyfle i ddysgwyr siarad ac ymarfer sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol a chefnogol ac o fewn amser gwaith.
- cynnwys gofyniad am sgiliau "cwrteisi" Cymraeg o fewn canllawiau swyddi sy'n wynebu'r cyhoedd.
- targedu gweithwyr sydd heb unrhyw sgiliau Cymraeg er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs blasu e-ddysgu Cymraeg Gwaith a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Cymraeg Gwaith/Work Welsh .
- parhau i ganiatáu i weithwyr fynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.
- darparu hyfforddiant Cymraeg fel rhan o hyfforddiant Arweinwyr Chwarae, i gyflwyno brawddegau Cymraeg, cyflwyno ac ailymweld a geiriau a brawddegau a all gael eu defnyddio wrth chwarae megis un, dau, tri - coch, gwyn a gwyrdd, bore da, prynhawn da, diolch.

5.5 **Hyfforddiant sgiliau Cymraeg.**

Mae hyrwyddo hyfforddiant y Gymraeg wedi parhau ar draws y gweithlu. Mae amser â thal i fynychu cyrsiau Cymraeg yn cael ei ddarparu i weithwyr. Mae'r hyrwyddiad yn cynnwys y ddarpariaeth o gyrsiau blasu a ddarparwyd ym mis Ionawr a Chwefror 2021. Bydd y cwrs blasu nesaf ym mis Ebrill 2022, byddwn yn adrodd ar bresenoldeb ar y cwrs hwn yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

Tabl 3: Nifer y gweithwyr sydd yn mynychu hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg

Lefel	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Sgiliau Ieithyddol Sylfaenol	62	48	1	15	11	4
Mynediad	34	50	34	22	28	28
Sylfaenol	20	7	12	6	10	8
Canolradd	12	23	3	2	1	6
Uwch	2	1	9	7	6	3
Rhugl	3	10	5	5	3	0
Cyfanswm	133	139	64	57	59	49

Mae nifer y gweithwyr sy'n mynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg ffurfiol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd am adborth gan weithwyr a adawodd y cyrsiau llynedd. Roedd y rhesymau a roddwyd am beidio â pharhau yn cynnwys, gormod yn digwydd gyda'r pandemig byd-eang ac fe wnaeth hyn effeithio ar gapasiti i fynychu hyfforddiant ffurfiol. Adroddodd y gweithwyr hefyd nad oeddent yn hoffi'r ddarpariaeth ar-lein a ddaeth yn lle dosbarthiadau wyneb yn wyneb yn ystod cyfyngiadau COVID-19.

Yn ogystal â'r cyrsiau ffurfiol a ddarparwyd drwy Goleg Cambria, darparwyd hyfforddiant sgiliau Cymraeg ar ffurfiau eraill:

- Ariannwyd cyrsiau ysgol haf pum diwrnod ar gyfer pedwar o weithwyr ar lefel mynediad a sylfaenol.
- Y derbyniadau newydd o brentisiaethau wedi'u cofrestru ar gwrs 26 wythnos fel rhan o'u hyfforddiant. Anogir prentisiaid sy'n siarad Cymraeg i fynychu Paned a Sgwrs er mwyn cynnal eu sgiliau Cymraeg.
- Mae ein staff ysgol wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg arbenigol gyda 308 o athrawon ysgol gynradd yn mynychu hyfforddiant yn canolbwyntio ar y cwricwlwm, methodoleg ac iaith.
- Mae pedwar o athrawon cynradd ychwanegol wedi mynychu cyrsiau sabothol yn para hyd ar ddau dymor ysgol i gyflymu eu dysgu.
- Cofrestrodd a dechreuodd 254 o weithwyr fodiwlau e-ddysgu Cymraeg Gwaith/Dysgu Cymraeg a ddarparwyd gan Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cwblhaodd 20 o weithwyr y cwrs yn 2021/22.

- Mae cyrsiau e-ddysgu newydd wedi cael eu dylunio'n fewnol, yn benodol i ddelio â Safon 19.

- Mae cwrs e-ddysgu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi gweld cynnydd yn y nifer sydd wedi'i gwblhau. Gyda 401 o weithwyr yn ei gwblhau yn 2021/2022. Mae hyn yn cymharu â 277 o weithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant yn 2020/21.

5.6 I gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y canlynol:

i) nifer y gweithwyr a fynychodd cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

ii) pe cynigwyd fersiwn Cymraeg o'r cwrs - nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

5.7 Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnrwyd y Cyngor i hysbysu gweithwyr os ydynt yn dymuno gwneud unrhyw rai o'r cyrsiau'n Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr a fynychodd cyrsiau penodol yn Gymraeg wedi'i nodi yn y tabl canlynol:

Tabl 4: Proffil hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Math o Hyfforddiant	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	0	21
Delio â'r Cyhoedd	0	0
Iechyd a diogelwch	0	6
Cyfarfod Sefydlu	0	0
Rheoli Perfformiad	0	0
Recriwtio a chyfweld	0	0

5.8 Mae proses i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd mewn grym. Mae dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu

fel dymunol neu hanfodol wedi cael ei ddatblygu. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan y nifer o swyddi newydd a gwag a gafodd eu categoreiddio fel swyddi lle:

i) roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol
ii) roedd angen dysgu Cymraeg yn dilyn penodi
iii) roedd y Gymraeg yn ddymunol
iv) nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol

Mae'r data ar gyfer 2021/2022 wedi eu nodi isod:

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categoreiddio	Canran y swyddi wedi'u categoreiddio
Y Gymraeg yn hanfodol	4	5.63%
Y Gymraeg yn ddymunol	2	2.82%
Angen dysgu Cymraeg	0	0.00%
Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg	65	91.55%

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol:

Categori	Nifer					
	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14	2	3	4
Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42	12	2	2
Angen dysgu Cymraeg	0	0	0	0	9	0
Dim angen unrhyw sgiliau Cymraeg	277	185	207	66	46	46

.

6.0 Cwynion

6.1 Mae Gweithdrefn Gwynion y Cyngor wedi'i diwygio i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion y Safonau. Cyhoeddodd y Cyngor ei Bolisi Pryderon a Chwynion ar 1 Ebrill, 2021. Mae gwefan y Cyngor yn cynghori pobl bod y polisi hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu copïo fel mater o drefn i'r Cynghorydd Polisi Strategol i'w monitro.
Mae gwefan y Cyngor yn cynghori pobl bod y polisi hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu copïo fel mater o drefn i'r Cynghorydd Polisi Strategol i'w monitro. Gellir dod o hyd i'r weithdrefn Gwynion yma.

6.2 Mae model adrodd newydd wedi'i gyflwyno ers 1 Ebrill, 2021 a rhennir data perfformiad cwynion gyda Thîm y Prif Swyddogion, y Cabinet, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, a'r Pwyllgor Archwilio yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Mae cwynion am y Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Rhwydwaith yr Iaith.

6.3 Yn ystod 2021/22, ni dderbyniom unrhyw gwynion mewn perthynas â'r Gymraeg. Gwnaed un gŵyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg. Nodir manylion y gŵyn hon isod:

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg		
Darpariaeth Gwasanaeth Cwynion	**Manylion**	**Canlyniad a'r camau a gymerwyd**
Gwasanaethau Stryd	Arwyddion cyfarwyddyd yn Saesneg yn unig a dau enw lle yn Saesneg yn unig.	Roedd is-gontractwr wedi gosod arwyddion Saesneg yn unig yn dilyn gwaith ar gyffordd. Mae arwyddion newydd wedi cael eu comisiynu. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi penderfynu nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â'r Safonau ar gyfer arwyddion. Mae trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto.

6.5 Yn ein hadroddiad blynyddol 2021/22 fe wnaethom gynnwys cwyn o dan ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn galwad ffôn gan gwsmer Cymraeg i Gronfa Bensiynau Clwyd. Ar yr achlysur hwn nid oedd Swyddog Cymraeg ar gael i ddelio â'r ymholiad. Penderfynodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safon 19.

Safon 19
Os yw unigolyn yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys rhifau llinell uniongyrchol aelodau o staff), ac os yw'r unigolyn hwnnw yn dymuno derbyn gwasanaeth yn y Gymraeg, rhaid i chi ddelio â'r alwad yn Gymraeg nes bod

(a) yn angenrheidiol i drosglwyddo'r galwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg a all ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; ac

(b) os nad oes aelod o staff Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Mae'r safon yn golygu fod rhaid i unrhyw sgwrs ddechreuol gyda galwyr Cymraeg i **unrhyw** rif llinell uniongyrchol sydd ar gael i'r cyhoedd gael ei gynnal yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Nid yw mwyafrif ein gweithwyr sydd â rhifau llinell uniongyrchol yn siarad Cymraeg ac felly bydd angen i ni ystyried

datrysiadau amgen er mwyn cydymffurfio â'r safon. Mae grŵp Tasg a Gorffen wedi cael ei sefydlu i ystyried y dewisiadau a datblygu cynllun gweithredu i symud ymlaen.

7.0 Casgliad a Chamau Gweithredu ar gyfer y Dyfodol

7.1 Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r Gymraeg ac ar ôl penodi Swyddog Cymunedol y Gymraeg mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud i godi gweledegdd a hyglywedd y Gymraeg o fewn cynlluniau chwarae a gwasanaethau ieuenctid. Bydd y gwaith hwn yn parhau, ac yn benodol byddem yn adeiladu ar lwyddiant Dydd Gŵyl Dewi ac adfer perfformiadau a gorymdeithiau, sydd heb eu cynnal dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil rheoliadau cadw pellter cymdeithasol.

7.2 Wrth symud ymlaen yn ystod 2022/23 byddwn yn parhau i atgoffa a chefnogi gweithwyr a rheolwyr am eu cyfrifoldebau i fodloni Safonau'r Gymraeg a chwblhau ein hunanasesiad i ganfod unrhyw feysydd pellach ar gyfer gwella.

7.3 Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau fod 100% o weithwyr yn adolygu a chwblhau archwiliad sgiliau'r Gymraeg erbyn Mawrth 2023;
- cynyddu nifer y gweithwyr sy'n cwblhau'r modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith erbyn mis Mawrth 2023;
- lleihau nifer y gweithwyr sy'n adrodd nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, gan weithio tuag at y targed o 5% o weithwyr heb sgiliau Cymraeg erbyn Mawrth 2023; a
- chymryd rhan mewn mentrau i godi proffil y Gymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.

Atodiad 1 OFFERYN HUNAN ASESU SGILIAU'R GYMRAEG

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0	● Dim gallu sylweddol	● Dim gallu sylweddol	● Dim gallu sylweddol
LEFEL 1	**Rwy'n gallu:** ● Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati. ● Cyfarch a deall cyfarchiad. ● Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol a ddefnyddir bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati. ● Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â…'. ● Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig	**Rwy'n gallu:** ● Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau.	**Rwy'n gallu:** ● Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.
LEFEL 2	**Rwy'n gallu:** ● Deall prif bwyntiau sgyrsiau Cymraeg yn y gwaith ● Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol ● Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml ● Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn gyfarwydd ● Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio	**Rwy'n gallu:** ● Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a phrif bwyntiau gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati.	**Rwy'n gallu:** ● Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu faes fy swydd fy hun
LEFEL 3	**Rwy'n gallu:** ● Deall llawer o'r hyn a ddwedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. ● Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen dychwelyd i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol ● Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol ● Cymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw ● Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'r swydd	**Rwy'n gallu:** ● Sganio testunau am wybodaeth berthnasol ● Deall tipyn o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol.	**Rwy'n gallu:** ● Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio ● Gwneud nodiadau eithaf cywir tra bydd rhywun yn siarad
LEFEL 4	**Rwy'n gallu:** ● Cynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rugl gan allu mynegi fy hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol ● Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn maes fy swydd fy hun ● Dadlau o blaid/yn erbyn achos	**Rwy'n gallu:** ● Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym os nad oes geirfa anarferol yn cael ei ddefnyddio ac os nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol	**Rwy'n gallu:** ● Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion a cheisiadau ● Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu gyfarwyddiadau syml ● Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio
LEFEL 5	**Rwy'n gallu:** ● Cynghori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â fy mhrofiadau fy hun ● Rhoi cyflwyniad ● Delio'n hyderus gyda chwestiynau anghyfeillgar neu anrhagweladwy ● Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol	**Rwy'n gallu:** ● Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn cyd-destun neu iaith arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, cyfatebiaeth ac erthyglau ac ati.	**Rwy'n gallu:** ● Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc ● Ysgrifennu nodiadau cywir / llawn mewn cyfarfodydd wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt ● Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau gyda hyder ond efallai bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg

	● Cynnal cyfweliadau â'r cyfryngau		